Mae NICE wedi asesu'r ddyfais geko er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn.

Os bydd gwaed yn ceulo mewn gwythïen, fe'i gelwir yn thrombo-emboledd gwythiennol. Gall hyn achosi poen a chwydd, ac os bydd y clot yn teithio i'r ysgyfaint, gall fod yn angheuol. Gall thrombo-emboledd gwythiennol ddigwydd os bydd rhywun yn sâl neu'n anweithgar, neu'n llai gweithgar nag arfer, megis pan fyddant yn glaf yn y gwely yn dilyn llawdriniaeth. Mae'r ddyfais geko yn edrych fel oriawr fach a gaiff ei chlymu islaw'r pen-glin. Mae'n ysgogi'r cyhyrau yn y goes a'r droed a gall helpu i leihau'r risg o glot yn ffurfio.

Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio'r ddyfais geko i drin pobl pan nad oes modd defnyddio dulliau eraill o atal clotiau gwaed.

Efallai y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn awyddus i ddefnyddio'r ddyfais geko am ei bod yn debygol o arbed arian pan y'i defnyddir i drin pobl na allant ddefnyddio dulliau eraill o atal clotiau gwaed.

ISBN 978-1-4731-0709-0